***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 544

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

## RHAN 3

## Y Weithdrefn ar gyfer Apelau Deiliad Tŷ, Apelau ynghylch Caniatâd i Arddangos Hysbyseb ac Apelau Masnachol Bach

**Sylwadau**

**19.**—(1) Bernir bod sylwadau'r apelydd mewn perthynas â'r apêl (ac eithrio cais atgyfeiriedig) yn cynnwys yr hysbysiad o apêl a'r dogfennau sy'n dod gyda'r hysbysiad.

(2) Bernir bod sylwadau'r apelydd mewn perthynas â chais atgyfeiriedig yn cynnwys y cais a'i ddogfennau ategol.

(3) Bernir bod sylwadau'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â'r apêl yn cynnwys yr holiadur wedi ei gwblhau a'r dogfennau sy'n dod gyda'r holiadur.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, anfon copi o'r sylwadau a gyflwynir gan yr awdurdod cynllunio lleol at yr apelydd, a rhaid iddynt anfon copi o'r sylwadau a gyflwynir gan yr apelydd i'r awdurdod cynllunio lleol.